Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

9 Tachwedd 2015

Y Fonesig Rosemary Butler
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Rosemary

**Adroddiad Etifeddiaeth Fforwm y Cadeiryddion**

Rwyf wedi cael y pleser o ddod â Chadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad ynghŷd i drafod system bwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad.

Mae Fforwm y Cadeiryddion wedi mabwysiadu dull strategol o weithredu, gan edrych y tu hwnt i'n pwyllgorau unigol. Rydym wedi gweithio ar y cyd mewn modd trawsbleidiol, ac rydym wedi rhannu profiadau ac arferion da o ran strwythurau, prosesau a chanlyniadau sy'n berthnasol i waith y pwyllgorau. Yn unol â'ch cais, rydym wedi datblygu cyfres o argymhellion ar gyfer gwella perfformiad yn y Pumed Cynulliad.

Rydym o'r farn y dylid sicrhau bod gwaith craffu effeithiol unwaith eto wrth graidd y Cynulliad newydd.

Hyderwn y bydd yr adroddiad amgaeedig yn cyfrannu'n sylweddol at Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes, ac y bydd ein barn yn cael ei hystyried o ddifrif gan benseiri'r system bwyllgorau yn y Pumed Cynulliad.

Os ydych o'r farn y gallai Fforwm y Cadeiryddion gael mewnbwn defnyddiol yng nghyd-destun unrhyw agwedd arall ar eich gwaith etifeddol a chynllunio ar gyfer y Pumed Cynulliad, byddem yn falch o gynnig cymorth pellach.

Yn gywir

**David Melding AC, y Dirprwy Lywydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6232
E-bost/Email: david.melding@cynulliad.cymru

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**